Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Estyn

2014-2015

## 1 Diben

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif waith Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Estyn yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015. Prif rôl y Pwyllgor yw rhoi cyngor annibynnol i Brif Arolygydd EM a Swyddog Cyfrifyddu Estyn. Yn ystod y flwyddyn, felly, mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â'r prosesau strategol ar gyfer risg, rheoli a llywodraethu drwy ganlyniadau'r archwiliadau mewnol ac allanol ynghyd â phrosesau hunanarfarnu a phrosesau eraill. Mae'r Pwyllgor yn chwarae rôl allweddol yn diffinio agweddau ar y gwaith archwilio a monitro ymatebion rheolwyr i'r materion a godwyd.

1.2 Mae'r adroddiad yn disgrifio sut y bodlonodd y Pwyllgor y cyfrifoldebau hyn yn ystod 2014/15 a chanlyniad y gwaith o ran gwelliannau pellach i lywodraethu a rheoli'r sefydliad. Bwriedir i'r adroddiad lywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu fydd i'w gynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Estyn ar gyfer 2014/15.

## 2 Y Pwyllgor yn ystod 2014/15

2.1 Roedd aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Haydn E Edwards | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Judith Fabian | Cyfarwyddwr Anweithredol<br>(Cyfetholwyd o Chwefror 2015) |
| Arwel Thomas | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Rheon Tomos | Cyfarwyddwr Anweithredol |

Roedd aelodau yn rhinwedd eu swydd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ann Keane | PAEM, Estyn |
| Simon Brown | Cyfarwyddwr Strategol, Estyn |
| Phil Sweeney | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Estyn |

Gellir gweld cylch gorchwyl y Pwyllgor yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Estyn a dangosir taliadau aelodau yng Nghyfrifon Adnoddau Blynyddol Estyn (mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan Estyn).

2.2 Parhaodd yr Archwilwyr Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) a'r Archwilwyr Mewnol (Deloitte LLP) i ddarparu gwasanaeth effeithiol a gwerthfawr i'r Pwyllgor.

2.3 Yn unol â'r bwriad, cyfarfu'r Pwyllgor ar 29 Ebrill 2014, 8 Gorffennaf 2014, 5 Tachwedd 2014 a 4 Chwefror 2015, a mynychwyd y cyfarfodydd hyn yn llawn gan yr holl aelodau. Ni chafwyd unrhyw gyfarfodydd ychwanegol eraill yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i ddigwyddiadau neu broblemau. Roedd cynrychiolwyr o'r archwilwyr mewnol ac allanol yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd a darparodd Michaela Benjamin (Estyn) gymorth ysgrifenyddol i'r Pwyllgor. Mynychodd aelodau staff eraill Estyn y Pwyllgor pan oedd materion yn ymwneud â'u cyfrifoldebau yn cael eu trafod a mynychodd uwch aelodau staff Estyn rai cyfarfodydd fel sylwedyddion.

2.4 Cafodd safonau'r adroddiadau, ymatebion rheolwyr, olrhain argymhellion a chyfraniad holl aelodau'r Pwyllgor eu nodi'n gyson. Fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor, a

fu'n gweithredu'n dda fel grŵp, barhau i ofyn cwestiynau perthnasol ac amserol. Mae aelodau'r Pwyllgor yn meddu ar yr arbenigedd a'r profiadau angenrheidiol.

2.5 Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi parhau i weithredu'n electronig, a chyflwynwyd yr holl bapurau i aelodau drwy allrwyd Estyn neu atodiadau i negeseuon e-bost. Mae gliniaduron wedi bod ar gael i'r holl aelodau yn y cyfarfodydd. Cafodd yr holl gyfarfodydd eu harfarnu gan y rhai a oedd yn bresennol ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol at ei gilydd. Mae adborth fel hwn ar ddiwedd cyfarfodydd, sy'n nodwedd o holl gyfarfodydd Llywodraethu Estyn, yn galluogi pawb sy'n bresennol i fynegi'u barn ac mae'n arwain at welliannau o ran ansawdd.

## 3 Amgylchedd rheoli

### 3.1 Archwilio Mewnol

3.1.1 Yn ystod 2014/15, adolygydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yr adroddiadau canlynol a ddarparwyd gan yr Archwilydd Mewnol (Deloitte LLP).

| **Adroddiadau** | **Sgôr sicrwydd** | **Nifer yr argymhellion (sgôr blaenoriaeth)** |
|---|---|---|
| **Cyfarfod Ebrill 2014:** | | |
| 1 Systemau Ariannol<br>i) Cyllidebau, Cyfriflyfr Cyffredinol a Chyfrifyddu<br>ii) Rheolaeth Arian Parod, Refeniw a Symiau Derbyniadwy<br>iii) Y Gyflogres<br>iv) Prynu a Thaliadau | Sylweddol | 1 (Canolig)<br>5 (Isel) |
| 2 Iechyd a Diogelwch | Sylweddol | 1 (Canolig)<br>2 (Isel) |
| 3 Cynllunio Strategol a Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg (dilyniant) | Llawn | Dim |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod Tachwedd 2014:** | | |
| 1 Rheolau Cyffredinol TG | Sylweddol | 2 (Isel) |
| | | |
| **Cyfarfod Chwefror 2015:** | | |
| 1 Teithio, Cynhaliaeth a Threuliau Eraill | Sylweddol | 3 (Isel) |
| 2 Caffael a Chydymffurfio â Chontractau | Sylweddol | 1 (Canolig)<br>4 (Isel) |
| 3 Llywodraethu Corfforaethol – Dangosyddion Perfformiad Allweddol | Llawn | 1 (Isel) |
| 4 Rheoli Risg | Sylweddol | 1 (Isel) |
| 5 Systemau Ariannol<br>i) Cyllidebau, Cyfriflyfr Cyffredinol a Chyfrifyddu<br>ii) Rheolaeth Arian Parod, Refeniw a Symiau Derbyniadwy<br>iii) Prynu a Thaliadau<br>iv) Prosesau Rheoli Risg Ariannol | <br>Llawn<br><br>Llawn<br><br>Sylweddol<br>Sylweddol | <br>Dim<br><br>Dim<br><br>1 (Isel)<br>2 (Canolig) |

Yn yr holl gyfarfodydd, darparodd yr archwilwyr mewnol adroddiadau ar y cynnydd a wnaed wrth roi argymhellion archwilio ar waith a chafodd y gwaith hwn ei werthfawrogi gan y Pwyllgor. Yn ogystal, rhoddodd yr archwilwyr mewnol wybod i'r Pwyllgor am ddau ymweliad dirybudd i gyflawni 'hapwiriadau' a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2014 a Rhagfyr 2014, yn ymwneud â:

- Thaliadau wedi'u prosesu'n uniongyrchol gan y Rheolwr Gwasanaethau Ariannol (Hydref 2014 yn unig)
- Awdurdodi dyddlyfrau
- Cysoniadau banc
- Rheolau yn gysylltiedig â gwneud taliadau BACS
- Cydnabod cwynion a
- Phroses newydd ar gyfer newidiadau i fanylion cyfrifon banc cyflenwyr (Rhagfyr 2014 yn unig).

Ni nodwyd unrhyw broblemau. Cyflawnwyd y gwaith archwilio mewnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

3.1.2 Roedd y naw adroddiad a ddaeth i law'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2014/15 yn cynnwys pum maes gyda sgôr sicrwydd llawn, a chafodd yr holl feysydd eraill a adolygwyd sgôr sicrwydd sylweddol. Cyflwynwyd cyfanswm o 20 argymhelliad â sgôr blaenoriaeth isel a 5 argymhelliad â sgôr blaenoriaeth canolig. Nododd y Pwyllgor drylwyredd yr argymhellion a'r ymateb agored a chadarnhaol gan reolwyr Estyn.

3.1.3 Yn y cyfarfod yng Ngorffennaf 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Mewnol adroddiad ar ei waith ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014. Cynhaliwyd wyth aseiniad sicrwydd archwilio yn ystod y cyfnod hwn. Darparodd **dau** adroddiad **sicrwydd llawn**, a rhoddodd **chwe** adroddiad **sicrwydd sylweddol.** Cyflwynwyd cyfanswm o 13 argymhelliad newydd, bob un ohonynt â statws blaenoriaeth isel. Yn y flwyddyn flaenorol, cyflwynwyd 16 argymhelliad, ac roedd yn galonogol nodi bod 13 wedi'u gweithredu'n llawn, bod dau wedi'u gweithredu'n rhannol a bod un wedi'i weithredu'n rhannol ac y byddai'n destun hapwiriadau pellach. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan Estyn reolaeth effeithiol ar risg a phrosesau llywodraethu effeithiol i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad. Nododd adroddiad Deloitte hefyd **mai sicrwydd llawn oedd yr asesiad cyffredinol ar gyfer llywodraethu a rheoli risg.**

3.1.4 Trafodwyd y Rhaglen Waith ar gyfer Archwilio Mewnol yn y cyfarfod yn Ebrill 2014. Mae hwn yn cyflwyno'r gweithgarwch archwilio mewnol ar gyfer y cyfnod 2014/15 ac mae'n gynllun hyblyg er mwyn gallu addasu i'r newidiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sefydliad a'i amgylchedd. Mae Atodiad 1 yn dangos y rhaglen o archwiliadau mewnol a'r flwyddyn y cafodd yr adroddiadau eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y tair blynedd diwethaf, ac mae'n cynnwys adroddiadau archwilio a adolygwyd yng nghyfarfod pwyllgor cyntaf 2015/16.

3.1.5 Mae'r system olrhain ar gyfer yr argymhellion ym mhob adroddiad archwilio wedi parhau i gael ei defnyddio yn ystod y flwyddyn ac mae'n cynnwys gwybodaeth fel dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu penodol, perchenogaeth, adroddiadau cynnydd gan reolwyr a ph'un a gyflawnwyd y camau gan Estyn a'u gwirio gan yr Archwilwyr Mewnol. Mae'r system olrhain gynhwysfawr hon wedi cael ei chroesawu gan ddefnyddwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'n dda cael nodi bod mwyafrif helaeth yr argymhellion yn cael eu cwblhau o fewn y cyfnod cytûn (fel y nodwyd yn 3.1.3 uchod) a bod esboniadau am unrhyw lithriadau yn rhesymol a phragmatig. Daw datganiad sicrwydd y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2014-15 i'r casgliad '**Yn ei hanfod, mae gan Estyn system gadarn o reolaeth fewnol, a ddylai gynnig sicrwydd sylweddol ynghylch cyflawni amcanion Estyn**'.

3.1.6 Arfarnwyd ansawdd y gwaith archwilio a gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio sawl dull gwahanol:

- arfarnu ar ddiwedd cyfarfod
- olrhain y camau gweithredu a gytunwyd ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor
- yr aelodau'n cwblhau rhestr wirio hunanasesu
- hunanarfarnu gan y Pwyllgor
- gwerthusiad blynyddol o Gyfarwyddwyr Anweithredol gan PAEM/Swyddog Cyfrifyddu
- adolygiad blynyddol o'r Cylch Gorchwyl
- cyfarfod blynyddol gyda'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol
- trafodaeth yn dilyn cyfarfodydd Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Risg cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Arweiniodd yr arfarniadau hyn at fân newidiadau i waith y Pwyllgor; er enghraifft, gwella'r broses ar gyfer datgan buddiannau aelodau, ychwanegu adolygiad o

broffiliau risg ariannol at amserlen agenda'r Pwyllgor a rhannu dysgu fwyfwy â chyrff eraill yn ymwneud â materion llywodraethu, archwilio a risg.

## 3.2 Archwilio Allanol

3.2.1 Yn y cyfarfod yn Ebrill 2014, cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru ddogfen yr Elfennau Cyflawnedig o ran Archwilio ar gyfer archwilio datganiad ariannol 2013/14 Estyn. Eglurodd y ddogfen hon gyfrifoldebau perthynol Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru. Parhawyd i drafod y strwythur ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r Archwilwyr Allanol yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad i Ddeddf Archwilio 2013, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi diwygio'u dull o ddyrannu costau ac wedi darparu mwy o wybodaeth am eu ffioedd.

3.2.2 Cafodd y gwaith Archwilio ar gyfer cyfrifon 2013/14 ei adolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yng Ngorffennaf 2014. Awgrymodd Swyddfa Archwilio Cymru eu bod, yn sgil yr adroddiad ISA 260 i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn bwriadu **cyhoeddi barn archwilio ddiamod** a'u bod yn fodlon i PAEM fel Swyddog Cyfrifyddu lofnodi cyfrifon 2013/14. Gwnaethant nodi hefyd fod y **cyfrifon wedi'u cyhoeddi yn ôl y terfyn amser ac yn unol â safonau ansawdd.**

3.2.3 Roedd Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn bod y materion a ddeilliodd o archwilio'r cyfrifon yn gymharol ddibwys ac, felly, tynnodd sylw at y rhain mewn llythyr i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn hytrach na chyhoeddi Llythyr Rheoli ffurfiol. Cadarnhaodd y llythyr hwn, a drafodwyd â'r Pwyllgor yng nghyfarfod Tachwedd 2014, bod y **datganiadau ariannol** wedi cael **barn ddiamod** ac fe'u llofnodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 22 Gorffennaf a'u **gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Gorffennaf 2014.** Yn ogystal, cadarnhaodd y llythyr nad oedd gan yr archwilydd unrhyw bryderon am yr agweddau ansoddol ar arferion cyfrifo ac adrodd ariannol Estyn ac **na nododd yr archwiliad unrhyw wendidau perthnasol yn y rheolaethau mewnol.**

3.2.4 Yn Chwefror 2015, cyflwynodd yr Archwilwyr Allanol eu Cynllun Archwilio ar gyfer 2015 ac amlygu rhai risgiau. Yn ogystal, roedd y Cynllun yn cynnwys y Ffi Archwilio ar gyfer 2015/16, sef yr un ffi ag yn 2014/15. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod 59 diwrnod a'r ffi archwilio sy'n deillio o hynny, ar gyfer archwiliad cymharol syml o gyfrifon Estyn, yn ymddangos yn ormodol.

## 4 Cydweithredu rhwng Archwilwyr Mewnol ac Allanol

Cyflwynwyd datganiad i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio yng Ngorffennaf 2014 yn dangos sut mae'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn cyfathrebu ac yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gostwng lefel unrhyw waith a gaiff ei ddyblygu cymaint â phosibl. Cyflwynwyd protocolau a rolau perthynol yn y datganiad a chaiff hwn ei adolygu'n flynyddol.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon ag ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

## 5 Llywodraethu Corfforaethol

5.1 Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi parhau i weithredu yn unol â'r **cod arfer dda ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol** a rhannwyd dogfennau allweddol dros y blynyddoedd diwethaf a'u defnyddio i gyflawni'r gwaith. Defnyddiwyd **Canllaw Arfer Dda (Helpu'ch Pwyllgor Archwilio i ychwanegu gwerth)** y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i nodi gwelliannau.

5.2 Dosbarthwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio i bob aelod gyda'r papurau er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ei brif gyfrifoldebau. Yn Nhachwedd 2014, cafodd Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Estyn ei adolygu a diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

5.3 Mae'r Datganiad Llywodraethu, a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn, wedi dod yn rhan ganolog o ystyriaethau'r Pwyllgor ac mae'n darparu manylion am reolaethau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol Estyn. Mae'r Datganiad Llywodraethu wedi bod ar agenda'r Pwyllgor trwy gydol 2014/15. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi datblygu ymhellach y crynodeb diagramatig o "drefniadau fframwaith sicrwydd Estyn" ac mae hwn wedi bod yn ganllaw defnyddiol i waith y Pwyllgor hefyd.

5.4 Mae hunanarfarniad blynyddol y Pwyllgor, gyda chymorth yr Archwilydd Mewnol, wedi arwain at lawer o welliannau dros y blynyddoedd. Mae'r camau a ddeilliodd o'r hunanarfarniad ym Mai 2013 wedi'u rhoi ar waith ac mae aelodau wedi gwerthfawrogi'r cyfle i fynychu Cynhadledd Staff Flynyddol Estyn a chyflwyniadau amrywiol a wnaed trwy gydol y flwyddyn gan swyddogion Estyn i gyfarwyddwyr anweithredol. Trafodir anghenion hyfforddi a datblygu ymhellach fel rhan o'r broses werthuso flynyddol a gynhelir gyda PAEM. Cododd yr ymarferiad hunanarfarnu yn Chwefror 2015 yr awgrymiadau canlynol:

- dylid ystyried mynychu Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg eraill, fel rhan o drefniant "gefeillio" gyda chorff cyhoeddus arall
- dylid adolygu prosesau ymsefydlu aelodau newydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn er mwyn dysgu o brofiadau dau aelod newydd
- dylai'r Pwyllgor ofyn am ddiweddariadau gan staff ar brosiectau penodol, yn enwedig ar ôl i'r maes gwaith gael ei archwilio

5.5 Mae'r eitem sefydlog ar ddiweddariadau cyfreithiol a rheoleiddiol gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn sicrhau bod yr aelodau'n cael gwybodaeth lawn am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar sefyllfa gyfreithiol, adrodd neu gydymffurfio Estyn, i'r graddau bod hynny'n effeithio ar waith y Pwyllgor. Bydd PAEM yn rhoi diweddariad llafar ym mhob cyfarfod ar y datblygiadau yn Estyn ac unrhyw newidiadau allanol a allai gael dylanwad ar waith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor.

## 6 Risg a Thwyll

6.1 Daeth y Cofrestri Risg Strategol a Chorfforaethol i law yn y cyfarfod yn Nhachwedd 2014 a gwnaed nifer o addasiadau yn dilyn awgrymiadau gan yr aelodau. Mae'r Pwyllgor yn parhau'n fodlon bod gan Estyn Bolisi Rheoli Risg priodol a oruchwylir gan y Bwrdd, a bod ei gofrestr risg yn adlewyrchu'n ddigonol y risgiau y mae Estyn

yn eu hwynebu a'u heffaith debygol. Mae'r gofrestr risg hefyd yn nodi'r camau rheoli a gymerwyd i liniaru a dileu'r risgiau. Gan fod aelodau'r Pwyllgor hefyd yn gweithredu fel cyfarwyddwyr anweithredol ar Fwrdd Estyn, maent yn gallu gweld risgiau yn glir ac yn cymryd rhan yn uniongyrchol mewn trafodaethau am strategaethau a chamau rheoli risg.

6.2 Cododd achos yn ymwneud â defnydd twyllodrus ar un o linellau ffôn Estyn gan barti allanol ar ddiwedd blwyddyn 2013-14. Trafododd y Pwyllgor yr achos hwn yn ei gyfarfod yn Ebrill 2014 ac roedd yn fodlon bod rheolwyr Estyn wedi cymryd camau priodol; cafodd manylion eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer 2013-14.

6.3 Daethpwyd â digwyddiad twyllodrus arall, yn ymwneud â thaliadau anfonebau cyflenwr i gyfrif banc twyllodrus, i sylw'r Aelodau yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod rheolwyr wedi cymryd camau priodol i adrodd am y twyll (a chynnwys manylion yn y Datganiad Llywodraethu blynyddol) ac i leihau cymaint â phosibl y posibilrwydd o weithgarwch twyllodrus yn y dyfodol, gan gynnwys: hyfforddiant i staff Estyn ar ymwybyddiaeth o dwyll; rheolau gweithdrefnol a gwiriadau ychwanegol o fewn y tîm Cyllid; ac ehangu cwmpas adolygiadau archwilio mewnol i gynnwys rheoli risg ariannol yn benodol.

## 7 Rhannu Arfer Dda

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd dau gyfarfod gyda Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Risg Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn trafod materion o ddiddordeb cyffredin ac i rannu arfer dda. Cyflwynwyd adborth o'r ddau gyfarfod (Mai 2014 a Thachwedd 2014) i'r Pwyllgor ac, oherwydd bod gan rai cyfarwyddwyr anweithredol ddyletswyddau archwilio y tu allan i Estyn, mae o leiaf dau aelod o'r Pwyllgor wedi gallu mynychu.

## 8 Materion Ychwanegol

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi cael gwybodaeth am y materion canlynol ac wedi'u hadolygu:

- y datganiad sicrwydd blynyddol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ynghylch proses y gyflogres
- newidiadau arfaethedig Trysorlys Ei Mawrhydi i'r sgorau sicrwydd a ddefnyddir ar gyfer adroddiadau archwilio mewnol
- datganiad a pholisi drafft Estyn ar Chwythu'r Chwiban
- manylion pedwar hawlildiad ac ymadawiad
- Bil Cenedlaethau'r Dyfodol
- DAO (Annwyl Swyddog Cyfrifyddu) Trysorlys Ei Mawrhydi yn ymwneud â darparu iawndal yn sgil terfyn contractau
- cyhoeddiad Trysorlys EM ar symleiddio adroddiadau a chyfrifon blynyddol
- darparu ffurflenni buddiannau aelodau ym mhob cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol
- diweddariad i Bolisi Gwrth-dwyll Estyn
- paratoi ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r protocolau ar ei gyfer

## 9 Casgliad

Mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn unol â safon uchel yn ystod y flwyddyn ac wedi cael gwybodaeth briodol, reolaidd ac amserol ynghylch llunio cyfrifon adnoddau Estyn ac, yn benodol, ynghylch amgylchedd rheoli Estyn. **Mae'r Pwyllgor yn parhau'n fodlon bod modd i'r Swyddog Cyfrifyddu gael sicrwydd sylweddol bod sefyllfa rheoli, risg a llywodraethu Estyn yn 2014-15 yn gadarn, wrth gwblhau'r Datganiad Llywodraethu**.

## 10 Cydnabyddiaeth

Rwy'n ddiolchgar i bawb sy'n mynychu'r Pwyllgor am eu gwaith a'u cyfraniad yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith Phil Sweeney a Michaela Benjamin, gyda chefnogaeth staff eraill, wedi bod yn ganolog i waith y pwyllgor ac rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau. Rwy'n ddiolchgar hefyd i Matthew Coe a Phil Pugh o Swyddfa Archwilio Cymru ac Ian Howse a Katherine Rankin o Deloitte am eu cymorth a'u cyngor yn ystod y flwyddyn.

Dr Haydn E Edwards
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio Estyn ar gyfer y flwyddyn 2014-2015
Gorffennaf 2015

| **Atodiad 1: Archwiliadau mewnol a gyflawnwyd a/neu a adolygwyd gan y Pwyllgor Archwilio (rhaglen 3 blynedd)** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes archwilio** | **Rhaglen archwilio** | **Adolygiad y pwyllgor** | **Lefel sicrwydd** | **Blaen-oriaeth uchel** | **Blaen-oriaeth ganolig** | **Blaen-oriaeth isel** | **Cyfan-swm** |
| Diogelu | 2014-15 | 2015-16 | Sylweddol | - | 1 | 2 | **3** |
| Prosesau Rheoli Risg Ariannol | 2014-15 | 2014-15 | Sylweddol | - | 2 | - | **2** |
| Prynu a Thaliadau | 2014-15 | 2014-15 | Sylweddol | - | - | 1 | **1** |
| Rheolaeth Arian Parod, Refeniw a Symiau Derbyniadwy | 2014-15 | 2014-15 | Llawn | - | - | - | **-** |
| Cyllidebau, Cyfriflyfr Cyffredinol a Chyfrifyddu | 2014-15 | 2014-15 | Llawn | - | - | - | **-** |
| Rheoli Risg | 2014-15 | 2014-15 | Sylweddol | - | - | 2 | **2** |
| Llywodraethu Corfforaethol – Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 2014-15 | 2014-15 | Llawn | - | - | 1 | **1** |
| Rheolaeth Caffael a Chontractau | 2014-15 | 2014-15 | Sylweddol | - | 1 | 4 | **5** |
| Teithio, Cynhaliaeth a Threuliau Eraill | 2014-15 | 2014-15 | Sylweddol | - | - | 3 | **3** |
| Rheoli Cyffredinol TG | 2014-15 | 2014-15 | Sylweddol | - | - | 2 | **2** |
| Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg (Dilyniant) a Rheolaeth Strategol | 2013-14 | 2014-15 | Llawn | - | - | - | **-** |
| Iechyd a Diogelwch: Ymsefydlu | 2013-14 | 2014-15 | Sylweddol | - | 1 | 2 | **3** |
| Iechyd a Diogelwch: Asesu Risg | 2013-14 | 2014-15 | Dd/B – Ymgynghorol | Dd/B | Dd/B | Dd/B | **Dd/B** |
| Cyllidebau, Cyfriflyfr Cyffredinol a Chyfrifyddu | 2013-14 | 2014-15 | Sylweddol | - | - | 1 | **1** |
| Rheolaeth Arian Parod, Refeniw a Symiau Derbyniadwy | 2013-14 | 2014-15 | Sylweddol | - | 1 | 1 | **2** |
| Y Gyflogres | 2013-14 | 2014-15 | Sylweddol | - | - | 1 | **1** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynu a Thaliadau | 2013-14 | 2014-15 | Sylweddol | - | - | 2 | **2** |
| Rheoli Cwynion | 2013-14 | 2013-14 | Llawn | - | - | 1 | **1** |
| Adnoddau Dynol: Recriwtio, Penodiadau Newydd, a Pherfformiad Staff (Dilyniant) | 2013-14 | 2013-14 | Sylweddol | - | - | 3 | **3** |
| Cyllidebau, Cyfriflyfr Cyffredinol a Chyfrifyddu | 2012-13 | 2013-14 | Sylweddol | - | - | 4 | **4** |
| Prynu a Thaliadau | 2012-13 | 2013-14 | Llawn | - | - | 2 | **2** |
| Sicrhau Ansawdd Arolygwyr Ychwanegol | 2012-13 | 2013-14 | Llawn | - | - | 1 | **1** |
| Asedau a Rhestri Eiddo | 2012-13 | 2013-14 | Sylweddol | - | - | 2 | **2** |
| Rheolaeth Arian Parod, Refeniw a Symiau Derbyniadwy | 2012-13 | 2013-14 | Llawn | - | - | - | **-** |
| Rheoli Risg | 2012-13 | 2013-14 | Llawn | - | - | 1 | **1** |
| Llywodraethu Corfforaethol | 2012-13 | 2013-14 | Llawn | - | - | - | **-** |
| Deddf Diogelu Data, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Adrodd Amgylcheddol | 2012-13 | 2012-13 | Sylweddol | - | - | 6 | **6** |